OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1396 (Cy.138)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*21 Mai 2002*
Yn dod i rym - -	*30 Medi 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 38(3) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 30 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

2.—(1) Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000(**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) cyn y diffiniad o "blwyddyn ysgol" mewnosodwch y canlynol—

ystyr "athro ysgol" ("*school teacher*") yw athro neu athrawes a gyflogir mewn dim mwy na dwy ysgol, gan awdurdod addysg lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, ond nid yw'n cynnwys athro neu athrawes a gyflogir o dan gontract cyfnod penodol os yw'r cyfnod yn llai na blwyddyn;".

(3) Ar ôl rheoliad 9 mewnosodir y rheoliad canlynol—

"**Y Polisi Rheoli Perfformiad**

10.—(1) Erbyn 30 Tachwedd 2002, rhaid i'r corff llywodraethu sefydlu polisi ysgrifenedig ("y Polisi Rheoli Perfformiad") yn nodi sut mae gwerthuso athrawon ysgol i gael ei roi ar waith yn yr ysgol.

(**1**) 1998 p.31; i gael ystyr "regulations" *gweler* adran 142(1).
(**2**) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/ 3027 (Cy.195).